

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX
Dydd Mawrth, 19eg Medi, 2017 am 2.00 pm

Dolen gyswllt:Hannah Williams (Rhif ffôn. 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 15 Medi 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i servicedirector.cabinetandpr@rctcbc.gov.uk.

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o ddau gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ddydd Mawrth 18 Gorffennaf, 2017.

(Tudalennau 5 - 72)

3. ADRODDIAD ER GWYBODAETH – CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD – DIWEDDARIAD I ADRAN 3A

Er gwybodaeth, mae'r diweddariadau canlynol wedi'u gwneud i'r Arweinwyr Dirprwyo'r Arweinydd ([3A - Link](#))

- Ychwanegu Gweithgor y Lluoedd Arfog
- Ychwanegu Grŵp Llywio Diwylliant a Chelfyddydau Strategol

4. RHAGLEN WAITH Y CABINET

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi'r rhestr arfaethedig ddiweddaraf i Aelodau o'r Cabinet o faterion sy'n rhan o Raglen Waith y Cabinet y mae angen eu trafod yn ystod Blwyddyn y Cyngor, 2017-18.

(Tudalennau 73 - 94)

5. ARGYMHELLION GWEITHGORAU CRAFFU

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi casgliadau ac amgymhellion y Pwyllgor Iechyd a Lles a gynhaliodd adolygiad mewn perthynas â 'Chefnogi Pobl i Fyw'n Annibynnol yn y Cartref'.

(Tudalennau 95 - 114)

6. CYNNIG I DDERBYN (MEWN EGWYDDOR) TROSGLWYDDIAD LESDDALIADOL 99 MLYNEDD O GANOLFAN ORIAU DYDD Y SANTES FAIR I AGE CONNECTS MORGANNWG.

Derbyn adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a Chyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor a Chaffael, sy'n rhoi crynodeb i'r Aelodau o risgau a buddiannau'r cynnig busnes wedi'i gyflwyno gan Age Connects Morgannwg (ACM) ar gyfer ei drosglwyddiad arfaethedig o Ganolfan Oriau Dydd y Santes Fair, drwy brydles 99 mlynedd.

(Tudalennau 115 - 150)

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU CWM TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cynnwys Adroddiad Blynyddol 2016/17 Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf (Plant, Oedolion a'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth).

(Tudalennau 151 - 198)

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWEITHDREFNAU SYLWADAU A CHWYNION Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi crynodeb o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefnau cwyno Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

(Tudalennau 199 - 216)

9. GRANT CYNNAL CANOL Y DREF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n rhoi manylion ynghylch rhoi Grant Cynnal Canol y Dref arfaethedig ar brawf am flyddyn, gan ddechrau yn ardaloedd manwerthu Aberpennar a Thonypanyd.

(Tudalennau 217 - 226)

**10. PORTH DEHEUOL: DIWEDDARIAD AR FFORDD GYSWLLT AR
DRAWS Y CWM YN ABERPENNAR**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet ar ddatblygu a chynnal y cynllun trafndiaeth sylweddol: Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm yn Aberpennar o Adroddiad y Cabinet 15 Mawrth 2017.

(Tudalennau 227 - 234)

11. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

**12. ADOLYGIAD O STRWYTHUR UWCH REOLWYR A SWYDDI RHEOLI
CYSYLLTIEDIG Y CYNGOR**

Trafod adroddiad y Prif Weithredwr sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig, ac sy'n ceisio sêl bendith y Cabinet ar gyfer gweithredu cam pedwar cynigion mewn perthynas ag adolygu Strwythur Uwch Reolwyr a Swyddi Rheoli Cysylltiedig y Cyngor, er mwyn arbed £776,116 yn ychwanegol, sef cyfanswm o £2.7m yn y maes yma.

(Tudalennau 235 - 274)

13. MATERION BRYG

Trafod unrhyw faterion bryg y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: A Morgan (Cadeirydd)
M Webber (Is-gadeirydd)
R Bevan
A Crimmings
G. Hopkins
M Norris
(Mrs) J. Rosser
R. Lewis
(Mrs) C. Leyshon

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd